Disgrifiad Swydd

MANYLION Y SWYDD

Teitl y Swydd	Swyddog Arweiniol Datblygu Remánd a Mechnïaeth 0.6 FTE				
Gradd	7	**Rhif Gwerthuso'r Swydd:**	3459	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	Nodwch y testun yma

Gwasanaeth	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc				
Tîm Gwasanaeth	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid				
Yn Atebol i	Rheolwr Tîm - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid				
Meysydd Cyfrifoldeb	Cliciwch yma i gynnwys testun *(enw'r timau).*				
Nifer y staff dan ofal deiliad y swydd	Dim	Cyfyngiadau Gwleidyddol *(Cyfeiriwch at yr adran amodau arbennig)*	Nac oes	Angen Gwiriad Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Oes
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w llenwi gan reolwr yn unig wrth greu swydd newydd neu ddiwygio rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Fel rhan o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid amlasiantaeth, lleihau'r defnydd o remand ar gyfer plant a phobl ifanc drwy gryfhau hyder mewn dewisiadau amgen yn y gymuned, gwella ansawdd cynigion mechnïaeth, a gwella gwaith partneriaeth ar draws y system cyfiawnder ieuenctid.

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

1. Cefnogi cynllunio ar gyfer plant sydd wedi'u remandio i'r ddalfa, gan gynnwys cysylltu â chyfreithwyr a cheisiadau mechnïaeth cynnar a gefnogir gan becynnau mechnïaeth neu ISS cryf.
2. Gweithio gydag unedau dalfeydd a'r tîm dyletswydd argyfwng i leihau remandau i ddalfeydd yr heddlu a'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc, gan gynnwys hyrwyddo dargyfeirio cynnar ac ymgysylltu â'r Rhaglen Turnaround.
3. Creu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gydag Ynadon a Barnwyr ar draws Llysoedd Ieuenctid, Ynadon a'r Goron, gan gynyddu hyder mewn dewisiadau cymunedol amgen i remánd.
4. Adolygu remandiau'r heddlu a'r llysoedd mewn ffordd amserol i nodi dysgu, patrymau a chyfleoedd i leihau remandau yn y dyfodol, gan ymgorffori adborth barnwrol a phartneriaid.
5. Cyflwyno sesiynau briffio a hyfforddiant barnwrol wedi'u targedu i hyrwyddo dealltwriaeth o fechnïaeth, ISS ac opsiynau eraill yn y gymuned.
6. Cydlynu sesiwn friffio remand a mechnïaeth chwarterol i rannu dysgu, deilliannau ac enghreifftiau o arfer effeithiol a datblygu protocolau cydweithio gyda phartneriaid allweddol.
7. Adolygu Adroddiadau Cyn Dedfrydu, Cymorth Mechnïaeth a Phecynnau Cymorth Mechnïaeth ISS ar draws ardaloedd GCI/GTI i sicrhau bod cynigion yn gadarn, yn gyson ac yn canolbwyntio ar reoli risg cymunedol.
8. Cyfrannu at hyfforddiant ac arweiniad i ofalwyr maeth a staff preswyl sy'n cefnogi plant ar fechnïaeth neu fechnïaeth ISS, gan weithio ochr yn ochr ag ymarferwyr GCI/GTI.

Canlyniadau Allweddol

- Lleihau defnydd o remand a dalfeydd yr heddlu ar gyfer plant.
- Gwell ansawdd a chysondeb cynigion mechnïaeth.
- Mwy o hyder barnwrol mewn dewisiadau amgen yn y gymuned.
- Gweithio mewn partneriaeth cryfach a dysgu ar y cyd ar draws y system.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniadau'r swydd ar y dyddiad pan gafodd ei baratoi. Gall dyletswyddau o'r fath amrywio o bryd i'w gilydd heb newid nodweddion cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae amrywiadau o'r fath yn beth cyffredin ac ni allant gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	• Addysg hyd at NVQ lefel 3 ac uwch	• Gradd mewn pwnc sy'n berthnasol i waith gyda Phobl Ifanc, Cymhwyster Ymarfer Effeithiol
Gwybodaeth	• Gwybodaeth ymarferol o ddeddfwriaeth Cyfiawnder Ieuenctid • Gwybodaeth am ddeddfwriaeth Amddiffyn Plant a Diogelu • Gwybodaeth am y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a'r dirwedd ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n ymwneud â throseddu •	• Deddfwriaeth Llys Ieuenctid
Profiad	• Profiad o weithio yn y maes Cyfiawnder Ieuenctid • Profiad o weithio gyda phobl ifanc sydd ag ymddygiadau cyflwyno cymhleth a heriol. • Profiad o weithio o fewn fframwaith sy'n canolbwyntio ar blentyn ac sy'n Ystyriol o Drawma. • Profiad o weithio amlasiantaeth • Dadansoddi a chyflwyno data perthnasol	• Profiad o weithio mewn lleoliad llys
Addasrwydd a Sgiliau	• Dibynadwy • Cyfathrebwr effeithiol • Llunio asesiadau ac adroddiadau o ansawdd uchel • Canolbwyntio ar y plentyn • Dealltwriaeth o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a phrofiadau trawma byw ar blant • Y gallu i weithio dan bwysau ac ar eich liwt eich hun	• Siarad Cymraeg

YMDDYGIAD DISGWYLIEDIG A GWERTHOEDD

Annog a chefnogi eraill fel rhan o dîm. Rhoi arweiniad a chyngor i eraill. Meithrin cysylltiadau cadarnhaol yn y gwaith.

Ceisio, annog a chydnabod syniadau, mentrau a gwelliannau i ddarparu gwasanaethau gwell. Annog a chefnogi eraill i feddwl yn wahanol, i gwestiynu ac i roi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau.

Ystyried dulliau a sianeli cyfathrebu, mewn ffordd syml. Ymdrin â sgyrsiau heriol yn hyderus. Annog diwylliant o adborth.

Ystyried goblygiadau a gwneud penderfyniadau/argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymgynghori.

Myfyrio'n onest ar fy arddull personol a'i effaith ar eraill a datblygu fy sgiliau fel y gallaf addasu fy steil fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal	
Cyfle Cyfartal	Byddwch yn deall ac yn dangos parodrwydd i hyrwyddo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd.

Gofynion o Ran y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn cefnogi staff wrth ddarparu hyn. Rhaid asesu pob swydd mewn perthynas â gofynion yr Iaith Gymraeg a bydd naill ai'n Gymraeg Hanfodol neu'n Ddymunol.

Gofynion Cymraeg ar gyfer y swydd hon (Gweler Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer lefelau sgiliau)

Sgiliau Iaith Gymraeg		Dymunol			
Sgiliau Gwrando / Siarad	0	Sgiliau Ysgrifennu	0	Sgiliau Darllen / Deall	0

Amodau Arbennig

Datgeliad Manwl Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Mae'r swydd hon yn golygu eich bod yn dod i gysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu bobl anabl gryn dipyn. Mae'r Awdurdod felly yn ei gwneud yn ofynnol, yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1972 (Eithriadau) 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw gollfarnau troseddol, gorchmynion rhwymo i gadw'r heddwch neu rybuddion, gan gynnwys y rheini a gaiff eu hystyried fel arfer fel rhai wedi'u disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais - caiff eich ffurflen ei dychwelyd os na fydd yr adran hon wedi'i chwblhau. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylai gwybodaeth bellach am Ddatgeliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sut mae'r Cyngor yn ymdrin â recriwtio cyn-droseddwyr ddilyn y ffurflen gais, os na fydd, cysylltwch â'r unigolyn a enwyd yn yr hysbyseb.
Yn Gyfyngedig yn Wleidyddol	Ddim yn Berthnasol
Arall (gan gynnwys anghenion corfforol ac amodau gweithio)	Ymagwedd hyblyg i ddiwallu anghenion y gwasanaeth

Hyfforddiant

Ymgymryd â'r holl hyfforddiant gofynnol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun.

I gael rhagor o wybodaeth am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.casnewydd.gov.uk neu cliciwch yma.